Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
Datganiad i'r Wasg
I'w ryddhau ar unwaith
02920 491818 | 07815 071164
www.neu.org.uk
www.Facebook.com/nationaleducationunion
www.Twitter.com/@NEUnion

10fed Tachwedd 2019

Mae angen mwy o weithredu ar faich gwaith athrawon

Mae undeb addysg fwyaf Cymru wedi galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod yn rhaid i arolwg y gweithlu, sy'n un o bedair blaenoriaeth allweddol y Gweinidog ar gyfer y Grŵp Rheoli Llwyth Gwaith a Lleihau Biwrocratiaeth, ganolbwyntio'n bennaf ar faich gwaith fel y gellir adnabod achosion baich gwaith gormodol pob aelod o staff mewn ysgolion. Mae Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru hefyd yn teimlo ni all cael unrhyw gynnydd gwirioneddol o ran lleihau baich gwaith athrawon nes bod y lefel uchel o atebolrwydd athrawon yn cael ei ostwng.

Dywedodd **David Evans**, Ysgrifennydd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru:

"Dywed gweithwyr addysg proffesiynol wrthym fod baich gwaith yn ffactor enfawr o ran eu gallu i gynllunio a pharatoi gwersi o ansawdd uchel sy'n helpu eu disgyblion i wneud cynnydd. Mae angen i ni symud oddi wrth y diwylliant ticio blychau sy'n bodoli ac mae'n amlwg y gallai baich gwaith hyd yn oed gynyddu gyda'r Cwricwlwm newydd.

"Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhai camau ar faich gwaith, ond mae ein haelodau wedi dweud wrthym heddiw bod angen i'r Gweinidog arolygu'r gweithlu a darganfod achosion sylfaenol baich gwaith gormodol o fewn y system. Byddwn yn gweithio gyda Grŵp Rheoli Llwyth Gwaith a Lleihau Biwrocratiaeth Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg i ddatrys unrhyw faterion difrifol a ganfyddir yn yr arolwg yma."

GORFFEN

Roedd testun y cynigion i gynhadledd ar y mater hwn fel a ganlyn

Cynnig 23. Baich Gwaith

Mae Cynhadledd Cymru yn nodi datganiad llafar y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, a wnaed ar 11 Mehefin 2019 yn nodi dull Llywodraeth Cymru o 'Reoli Baich Gwaith a Lleihau Biwrocratiaeth' ac mae'n croesawu gweithrediad arfaethedig y 4 maes o flaenoriaeth a'r ymrwymiad i ddatblygu cynlluniau tymor canolig a hir ar gyfer delio â'r mater hwn yn y dyfodol.

Fodd bynnag, dim ond y dechrau yw hyn.

Mae'r Gweinidog wedi sôn am arolwg pellach o'r gweithlu. Cred Cynhadledd Cymru fod yn rhaid i fesur o'r fath ganolbwyntio'n bennaf ar faich gwaith y tro hwn, gan nodi'n benodol:

1. Achosion baich gwaith gormodol i'r holl staff mewn ysgolion.

2. Systemau biwrocrataidd diangen a beichus gan gynnwys ceisiadau am ddata sydd wedi dyddio.

3. Ceisiadau a disgwyliadau afresymol gan awdurdodau lleol, consortia ac Estyn.

4. Effaith mentrau newydd a gyhoeddwyd ac a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru.

5. Effaith tanariannu, diffyg adnoddau a than-staffio.

Mae Cynhadledd Cymru yn cyfarwyddo'r Adran Weithredol trwy Bwyllgor Cymru i bwysleisio pwysigrwydd y meysydd hyn i'r Gweinidog Addysg a sicrhau bod y cwestiynau cywir yn cael eu gofyn i'r staff yn ystod yr arolwg sydd i ddod.

Cynnig 24. Baich Gwaith

Mae Cynhadledd Cymru yn croesawu'r datganiad a wnaed gan Kirsty Williams mewn darlith yn ystod y misoedd diwethaf ei bod yn gwybod bod angen iddi wneud mwy am faich gwaith athrawon na "dim ond cynhyrchu poster".

Fodd bynnag, mae Cynhadledd Cymru yn siomedig yng nghyhoeddiad diweddar Kirsty Williams a ddywedodd y bydd Estyn yn ymweld ag ysgolion o leiaf ddwywaith mewn cylch saith mlynedd ar ôl cyflwyno'r cwricwlwm newydd er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu bodloni.

Cred Cynhadledd Cymru:

1. Y ffordd fwyaf effeithiol o helpu disgyblion i symud ymlaen yw caniatáu amser i athrawon ddefnyddio eu profiad a'u hyfforddiant i gynllunio, paratoi a marcio gwersi ac asesiadau o ansawdd uchel sy'n helpu eu disgyblion i wneud cynnydd.
2. Ni all cael unrhyw gynnydd gwirioneddol o ran lleihau baich gwaith athrawon nes bod y lefel uchel o atebolrwydd athrawon yn cael ei ostwng.

Mae Cynhadledd Cymru yn cyfarwyddo'r Adran Weithredol trwy Bwyllgor Cymru i:

i. Weithio gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC) i ddatrys y materion difrifol a geir yn yr arolwg baich gwaith.
ii. Gynhyrchu arweiniad ar ymgyrch baich gwaith sy'n ystyried y broses a wnaed gan adrannau yr ATL a'r NUT dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.
iii. Ddrafftio siarter baich gwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru gyda Chyngor Cymru, fel yr un a gynhyrchwyd gan NUT Swydd Nottingham, gyda'r nod o leihau baich gwaith.
iv. Ymgyrchu i sicrhau, tra bo'r cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno, bod gweledigaeth Llywodraeth Cymru "i rymuso ysgolion ac athrawon ymhellach trwy symud i ffwrdd o gwricwlwm cul, gorlawn ac anhyblyg" yn cael ei chyflawni wrth sicrhau nad yw'n cynyddu baich gwaith athrawon.
    i. Werthuso a dosbarthu'r ymchwil ddiweddaraf ar arferion gwaith dwyster uchel ond effaith isel, fel marcio.

Cysylltiadau'r wasg:

Mae'r Undeb Addysg Genedlaethol yn gyfuniad o Gymdeithas yr Athrawon a Darlithwyr (ATL) ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT), a ffurfiwyd ar 1 Medi 2017. Gweler y manylion cyswllt isod am gymorth:

Cyswllt: Stuart Williams, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, Tŷ Sinnott, 18 Llys Neifion, Ffordd Vanguard, Caerdydd CF24 5PJ. Ffôn: 029 20491818. Symudol: 07795 295 355.

e-bost: stuart.williams@neu.org.uk

Nodyn i olygyddion:

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn sefyll ar gyfer dyfodol addysg. Mae'n dod â lleisiau athrawon, darlithwyr, staff cefnogi ac arweinwyr sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau cynaledig ac annibynnol ynghyd i ffurfio'r undeb addysg fwyaf yng Nghymru.

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn gysylltiedig â Chyngres Undebau Llafur (TUC), Pwyllgor Undeb Llafur Ewrop ar gyfer Addysg (ETUCE) ac Addysg Ryngwladol (EI). Nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol ac mae'n ceisio gweithio'n adeiladol gyda'r holl brif bleidiau gwleidyddol.